# CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

## COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 16eg MEHEFIN 2026.

## NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. R G Parry (Cadeirydd) Ms N Dafydd, J Evans, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. J E Lewis, G Jones. W R Parry, Mrs. L Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 19eg MAI 2026 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. R R Roberts eilo Cyng. J Evans.

Y Clerc a`r Cynghorwyr yn cydymdeilo a Cyng. G Jones a`r teulu yn ei brofedigaeth o golli ei frawd Gwilym.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Cafwyd air o ddiolch o Swyddfa Rhun ap Iorwerth AC, am ei longyfarch yn Brif Weindog.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.
1. Deddf Briffyrdd 1980 Adran 118.
Cais i ddiddymu Llwybr Cyhoeddus Rhif 34. Bodffordd.
Cais oddi wrth Richard and Sally Hogg. Cae Bach, Llynfaes LL65 3BJ.
Llwybr rhif 34 yn arwain am tua 55M o`r B5109 i hen ffynnon. Yr ymgeisiwyr yn dymuno cau`r llwybr ar y sail nad ydyw`r llwybr na`r ffynnon mewn defnydd cyhoeddus bellach.(Bron dros y ffordd i`r Neuadd Goffa, Bodwrog)
Cefnogaeth gan y Cyngor.
Cynnig Cyng. R R Roberts, eilio Cyng. J Evans. (Nid oedd gwrthwynebiad)

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)
2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)
3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith = Diweddariad Mai 2026.
Y Cyngor yn dderbyniol o weld pa benderfyniadau allweddol y mae`r pwyllgor yn debygol o wneud dros y misoedd nesaf i ddod. Pwy fydd yn gwneud penderfyniadau a phwy yw`r deilyddion portffolio arweniol. Ceir gwybodaeth pellach ar y lein.

4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Datganiad dweud eich dweud ar yr ardoll ymwelwyr posibl Ynys Môn.
Bydd ymgynghoriad yn dechrau Mai 18ed ac yn gorffen Gorffennaf 13ain 2026. (8 wythnos)
Y Cyngor yn annog sylwadau, lle ceir ar lein.

5. Cyfreithiwr Tim Eiddo a Priffyrdd - Siwan Jones.
Y Cyngor yn derbyn a cefnogi y gwaharddiad Traffig trwodd dros dro lon Llechcynfarwy - Trefor i Llannnerch-y-medd 18ed Mehefin 2026. Mae yn hanfodol i ddiogelwch 3 polyn.

## RHYBUDD AM ORCHYMYN LLWYBR CYHOEDDUS
## DEDDF PRIFFYRDD 1980

### GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL (LLWYBR TROED RHIF 26 YNG NGHYMUNED BODFFORDD) GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS 2026

Bydd y Gorchymyn uchod wnaethpwyd ar 23ain Mehefin 2026 dan Adran 119 o'r Ddeddf Priffyrdd 1980 yn gwyro'r llwybr cyhoeddus **sy'n rhedeg:**

O'r ffordd sirol ym mhwynt A (SH4154179797), mae'r llwybr yn mynd tua'r gorllewin ar hyd y ffordd sy'n gwasanaethu Bryntwrog Bach ac yn mynd heibio i'r gogledd o'r tŷ. Mae'n parhau tua'r gorllewin ar wyneb metel i bwynt B, lle mae'n mynd i mewn i gae, yn parhau i ddechrau ar hyd ymyl cae, ac yna'n troi i ffwrdd o'r terfyn am tua 46M ac yn dod i ben ym mhwynt C (SH4137979819). Mae'r hyd cyfan tua 175M ac nid oes ganddo led wedi'i gofnodi.

i drywydd **sy'n rhedeg**:

O'r ffordd sirol ym mhwynt D (SH4155679883) mae'r llwybr yn mynd i mewn i gae drwy giât cae ac yn mynd tua'r Gorllewin-Gogledd-orllewin am 11M i giât cae ym mhwynt E. Yna mae'n mynd tua'r De-orllewin ar draws y cae nesaf i'r ffens terfyn ym mhwynt F, lle bydd angen giât i gerddwyr. Mae'n parhau tua'r gorllewin yn y cae nesaf i fwlch mewn wal derfyn rhwng 2 gae (Pwynt G), yna'n parhau tua'r De-orllewin yn y cae nesaf am tua 31M i orffen ym mhwynt C (SH4137979819). Mae'r hyd cyfan tua 203M a'i led fydd 2M.

Mae'n bosib i'r cyhoedd archwilio copi o'r Gorchymyn a'r Map yn Swyddfa'r Cyngor, Llangefni drwy apwyntiad neu yn llyfrgell Llangefni. Neu bydd copi o'r dogfennau uchod ar gael ar wefan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk/gorchmynion-cyfreithiol. Fe ddanfonir copi caled o'r dogfennau uchod drwy'r post ar gais ac am ddim os cysylltwch â SiwanJones@ynysmon.llyw.cymru neu 01248 752591 (yn ystod oriau swyddfa arferol).

Dylid anfon unrhyw sylwadau ar y Gorchymyn neu wrthwynebiad iddo mewn ysgrifen at Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Sir, Llangefni cyn 24ain Gorffennaf 2026 gan ddatgan y rheswm dros eu cyflwyno. Bydd y rhain ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Oni chyflwynir sylwadau neu wrthwynebiadau yn y modd uchod neu os tynnir hwynt yn ôl gall Cyngor Sir Ynys Môn gadarnhau'r Gorchymyn eu hunain fel Gorchymyn diwrthwynebiad. Os cyflwynir y Gorchymyn i Lywodraeth Cymru i'w gadarnhau yna amgaeir y sylwadau neu wrthwynebiadau gyda'r Gorchymyn oni thynnwyd hwy yn ôl.

## NOTICE OF PUBLIC PATH ORDER
## HIGHWAYS ACT 1980

### CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL (FOOTPATH NO.26 IN THE COMMUNITY OF BODFFORDD) PUBLIC PATH DIVERSION ORDER 2026

The above Order, made on 23th June 2026, under Section 119 of the Highways Act 1980, will divert the Public Footpath **running:**

From the county road at point A (SH4154179797), the path proceeds west along the drive serving Bryntwrog Bach and passes north of the house. It continues west on a metalled surface to point B, where it enters a field, initially continues along a field edge, and then veers away from the boundary for approximately 46M and terminates at point C (SH4137979819). The total length is approximately 175M and it has no recorded width.

to a line **running**:

From the county road at point D (SH4155679883) the path enters a field through a field gate and proceeds WNW for 11M to a field gate at point E. In proceeds SW across the next enclosure to the boundary fence at point F, where a pedestrian gate will be needed. It continues west in the next enclosure to a gap in a boundary wall between 2 fields (Point G), then continues SW in the next enclosure for approximately 31M to end at point C (SH4137979819). The total length is approximately 203M and its width shall be 2M.

It is possible to inspect a copy of the Order and Order Map at the Council Offices, Llangefni by appointment or at Llangefni library. Alternatively, copies of the above documents are available on the Council's website www.anglesey.gov.uk/legal-orders or hard copies of the above documents will be sent in the post free of charge on request if you contact SiwanJones@ynysmon.llyw.cymru or 01248 752591 (during normal office hours).

Any representation about or objections to the Order may be sent in writing to the Legal Services Manager, Isle of Anglesey County Council, County Offices, Llangefni not later than the 24th July 2026. Please state the grounds on which they are made. These will be available for public inspection.

If no representations or objections are duly made, or if any so made are withdrawn, Isle of Anglesey County Council may confirm the Order as an unopposed Order. If the Order is sent to the Welsh Government for confirmation any representations and objections which have not been withdrawn will be sent with the Order.

DYDDIEDIG 24/06/2026 DATED

.............................................


Lynn Ball
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Direction of Function (Council Business)/Monitoring Officer
Cyngor Sir Ynys Mon/Isle of Anglesey County Council
Swyddfa'r Sir/County Offices, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

Am fwy o wybodaeth ynglyn â'r uchod ffoniwch Adran Gyfreithiol ar Llangefni 01248 752591 Par: HT-027692-SMJ

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

For further information regarding the above please telephone Legal Section on Llangefni 01248 752591 Ref :HT-027692-SMJ

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.




2675
+a-c

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

HUW PERCY C.Eng., CEnv, MICE
Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Head of Service - Highways, Waste and Property

Swyddfeydd y Cyngor/ Council Offices
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

MANYLION / DETAIL:

Llwybr i'w wyro / Path to be diverted

Gwyriad / Diversion

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Ordnance Survey AC0000825374
© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey AC0000825374

Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form

DARLUNWYD GAN:
DRAWN BY: Arwel G. Evans

DYDDIAD/ DATE: 04-06-2026

GRADDFA / SCALE: 1:2,000

GOHEBIAETH (ARALL)

6. Un Llais Cymru - Wendi Patience.

Gweminar-Tim Bioamrywiaeth - Cyfres Gweminar 5 colofn gweithredu dros natur. Manylu a lle i ddatblygu blodau gwyllt ac ymlaen.

Y wybodaeth yn dderbyniol, nid oes gan y Cyngor lawer o le i ddatblygu oherwydd nid ydynt yn eiddo iddynt.

7. Rheolaeth Coedwigoedd - Tim Ymgynghoriad.

Unedau Gorchwiliaeth - Hecterau. Mae Gogledd / Gorllewin Cymru gyda 20,228 hecterau.

Mae Dyfais Naturiol Cymru angen sylw ar y mater. Nid ydyw Goedwig Cefni yn dod dan Gyngor Bodffordd (Llanddyfnan a Llangefni) Felly fel Cyngor nid ydyw yn bosib fod yn sylwedydd.

RHODDION.

8. Dim.

PLWYFOL.

9. Cymeradwyodd y Cyngor Awdit 2025/26 fel rhai cywir. Y Clerc yn rhoi y ffurfflenni o`i blaen iddynt gael amser yw treulio Awdit Mewnol J A Foulkes. Y Clerc a`r Cadeirydd Cyng. R G Parry yn ei harwyddo yn barod i`w hanfon i`r Awdit allanol (Awdit Cymru Caerdydd) Y Rhybudd wedi ei rhoi i fynnu. Cynnig Cyng. D T Roberts eilio Cyng. J Evans.

10. Neuadd Goffa Bodwrog.

Y Cyngor yn awyddus cael gwybod pam maent yn gorfod talu £25 am logi`r Neuadd i gyfarfodydd a Mudiadau eraill sydd yn ei defnyddio (rhai yn gwneud elw) yn talu £20. (Egwyddor y peth)

Ateb a gafwyd:-

Cafodd ei prisiau ei adolygu yn ei cyfarfod blynyddol, ni fydd yn cael ei drafod eto tan cyfarfod blynyddol 2027. Mae cyfarfod blynyddol yn un cyhoeddus felly croeso i unrhyw un or Cyngor Plwyf fynychu i godi y mater.

Yn anffodus, nid oedd hyn yn ateb i beth ofonwyd. Unfrydol.

11. Ystafell Cyfarfodydd y Cyngor.

Mae yn ddyletswydd ar y Cyngor ddefnyddio ystafell i`r cyfrarfodydd mewn mannau gwahanol. Felly o Gorffennaf 21ain 2026 bydd y Cyngor yn symyd i Bodffordd am y dyfodol annisgwyl. Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. R R Roberts. Pawb yn cytuno.

12. Mynwent Gymunedol Bodffordd.

Mae mwy o waith Cynnal a Chadw ychwanegol wedi codi ei ben yn y Fynwent. Mae coed oedd wedi ei plannu amser yn ol ar y terfyn yn dechrau symud y waliau. Felly bydd rhai ei torri. Mae y gwaith yn mynd i Elfed Frazer. Y Cytuneb torri y coed i gyd (Ond yr un sydd wrth y wal yr Eglwys) a tynnu yr eiddew i gyd (Clirio y cwbl o`r Fynwent) Bydd y gost yn £1,650. Pasiwyd i dderbyn Cynnig Cyng, D T Roberts, eilio Cyng. R R Roberts. (Unfrydol)

Dywedodd y Clerc wrth y Cyngor fod rhai o`r Trefnwyr Angladdau yn hir yn danfon y ffurflen gladdu ymlaen. Mae y ffurflen i fod gyda`r Clerc (A tal perthnasol agor bedd) diwrnod cyn claddadigaeth. Mae y Clerc wedi cael gair a`r rhai mewn golwg, ac wedi esbonio y sefyllfa. Daethpwyd a hyn i fynnu yn y cyfarfod i gadw y Cyngor yn y pictiwr, rhag ofn i rhywbeth ddigwydd. Y Cynghorwyr yn derbyn, ac nid yn cofnodi enwau.

Y Clerc yn anfon Rheolau y Fynwent i`r Ymgymerwyr.

Y Clerc yn mynd i weld y Cyfreithiwr yn Llangefni i edrych ydi gweithredoedd y Fynwent Gymunedol Bodffordd yno. Ar ôl cael ei godi gan Cyng. J Evans,

13. Cafnau Blodau. (Groeslon Llangwyllog a Bronheulog Bodffordd)
Mae chwyn wedi ei tynnu erbyn hyn. Mae yn anodd cael diddordeb gan neb i edrych ar ei hol. Felly mae`r Clerc wedi dweud y bydd yn cadw golwg ac yn ei chwynu pan fydd angen.

14. Llwybrau. (Bodwrog, Heneglwys, Llandrygarn yn cynnwys Trefor)
Y Clerc wedi gofyn i`r Cynghorwyr a ydynt ymwybodol o unrhyw lwybr angen sylw.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.
Cafwyd adroddiad a oedd yn gystylliedig a wardiau Cyngor Bodffordd. Diolchwyd am yr adroddiad.

MATERION ARIANNOL.
16. Cyfrif Rhedegol. £27,179.06

ARIAN MYNWENT GYMUNEDOL. £11,346.63. (Rhan o`r cyfrif Rhedegol)

TALIADAU:
17. Clerc £517.06. Treth Incwm 1 (3 mis) £387.80. Gweinyddu (3 mis) £255.25. Cyfrifaduron Môn (Wefan) £218.00. I G Jones (Cyfrifydd) 25/26. £300.00. E Frazer (C a C Fynwent) £495.00. Neuadd Goffa Bodwrog (Ystafell) £50.00.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. Ms N Dafydd.

D Owen (Clerc)